ANFON FY FFRIND 08

Merched yn Bennaf

Oed: 11+

Ffurfiwch 8-10 grŵp (neu barau). Esboniwch fod sefydliad hawliau plant wedi galw cyfarfod i weld pam nad yw merched yn cael addysg.

Bydd chwe grŵp yn cymryd y rolau canlynol: merch, rhieni, athro, llywodraeth, sefydliad rhyngwladol hawliau plant, a sefydliad plant lleol. Bydd y grwpiau sy'n weddill yn gweithredu ar y cyd fel panel o arweinwyr rhyngwladol wedi'u sefydlu i benderfynu a ddylai merched gael yr un cyfleoedd â bechgyn i fynd i'r ysgol. Lle bo modd, ceisiwch sicrhau cydbwysedd rhwng y ddau ryw ym mhob grŵp.

Rhowch bum munud i'r grwpiau sy'n chwarae'r rolau drafod eu rôl. Dylai'r grwpiau sy'n weddill (y 'panel') astudio'r cardiau rôl, a dylent i gyd nodi cwestiwn allweddol maen nhw'n dymuno gofyn i bob un o'r grwpiau sy'n chwarae rôl.

Gofynnwch i wirfoddolwr gadeirio'r drafodaeth. Dylai pob un o'r grwpiau sy'n chwarae rôl gyflwyno'u hachos i'r dosbarth cyfan ynghylch y cwestiwn a ddylai'r ferch allu cael addysg. Yna dylai'r grwpiau sy'n ffurfio'r panel benderfynu a ydyn nhw'n teimlo y dylai merched gael cyfle cyfartal i gael addysg.

Trafodwch:

- Beth oedd y prif rwystrau i'r ferch gael addysg?
- Ydy hyn yn deg?
- Pa ddadleuon yr oedd y dosbarth yn teimlo oedd gryfaf? Dadleuon pwy oedd y rhain?
- Beth yw effeithiau tebygol y penderfyniad ar y ferch o ran iechyd a chyfleoedd gwaith?
- Beth ellir cael ei wneud i ganiatáu i ferched fynd i'r ysgol?

Wedi'i addasu, gyda chaniatâd caredig, o weithgaredd yn 'Chilled Out, Not Worn Out' (NYCI 2004).

Mae 72 miliwn o blant yn colli'r cyfle i fynd i'r ysgol

ANFON FY FFRIND 08

Merched yn Bennaf

Cardiau Rôl

Merch Rwy'n codi am chwech bob bore i gynnau'r tân a choginio. Yna mae'n rhaid i mi nôl dŵr. Rwy'n dod â phryd o fwyd ganol dydd i fy rhieni. Mae fy rhieni'n dweud na allan nhw fforddio fy addysgu. Beth bynnag, maen nhw'n dweud y bydda i'n priodi cyn hir, felly bydd fy ngŵr yn darparu ar fy nghyfer. Ond dydw i ddim eisiau hynny. Bydd fy mrawd iau yn dechrau yn yr ysgol cyn hir. Rydw i'n breuddwydio am fynd i'r ysgol a chael addysg. Yna byddwn yn mynd yn athrawes a helpu merched eraill i wireddu eu potensial.	**Llywodraeth** Rydyn ni'n falch o'n record ar addysg. O dan y llywodraeth hon, rydym wedi adeiladu ysgolion a threfnu bod addysg yn ddi-dâl. Fodd bynnag, mae llawer o rieni heb gael addysg felly, dydyn nhw ddim yn anfon eu merched i'r ysgol. Ychydig iawn allwn ni ei wneud am hynny. Mae'r rhan fwyaf o bobl yn byw mewn tlodi. Nid yw addysg i ferched yn flaenoriaeth iddyn nhw. Problem fawr sy'n ein hwynebu yw nad oes digon o athrawon. Rydyn ni wedi gofyn i'r gymuned ryngwladol am gymorth, ond er eu bod yn siarad llawer, dydyn nhw ddim yn ei gefnogi ag arian.
Rhieni Mae'n ymdrech bob dydd dim ond i roi bwyd ar y bwrdd. Rhaid i ni ein dau weithio oriau hir, felly, mae angen i'n merch aros gartre a gofalu am y plant iau. Fel arall, pwy fydd yn coginio'u bwyd a glanhau'r tŷ? Wrth gwrs, hoffem iddi gael ei haddysgu, ond byddai'n haws gwneud hynny pe bai hi'n fachgen. Maen nhw'n gallu ennill llawer mwy o arian. Bydd hi'n priodi cyn hir, felly, dim ond teulu ei gŵr fyddai'n elwa o'n buddsoddiad yn ei haddysg.	**Sefydliad Rhyngwladol Hawliau Plant** Rydyn ni'n sefydliad rhyngwladol mawr sy'n gweithio ledled y byd. Rydyn ni'n credu'n gryf ei bod yn hanfodol addysgu merched os yw gwleddydd yn mynd i fynd i'r afael â thlodi. Ar hyn o bryd mae merched yn llai tebygol na bechgyn o gael addysg, ac mae gennym y ffigurau i brofi hynny – merched yw 57% o'r plant sy'n colli'r cyfle i gael addysg. Mae addysgu merched yn lleihau HIV a marwolaethau o AIDS, yn lleihau diffyg maeth ac yn cynyddu cyflenwi bwyd.
Athro Mae'r Llywodraeth yn dweud bod addysg yn ddi-dâl, ond rhaid i rieni dalu am ddillad, llyfrau ysgol ac arholiadau. Rwy'n cydymdeimlo â'r rhieni, ond mae angen i fi gael fy nhalu hefyd. Bu rhai ymosodiadau ar ferched yn ddiweddar ar eu ffordd hir adref. Dylid cael mwy o ysgolion lleol. Bydd angen mwy o athrawon ar gyfer hynny, yn cael eu talu'n iawn, yn lle'r rheiny sy'n gorfod chwilio am waith arall, a phecynnau gofal iechyd iawn er mwyn i athrawon sy'n mynd yn sâl allu gwella a dod yn ôl i'r gwaith.	**Sefydliad Plant Lleol** Sefydliad plant ydyn ni sy'n gweithio dros blant yn ein cymuned. Rydyn ni'n credu'n gryf ei bod yn hanfodol addysgu merched os ydyn ni i fynd i'r afael â thlodi. Mae gormod o ferched yn gadael yr ysgol cyn iddyn nhw allu gorffen eu haddysg am na allan nhw fforddio ffioedd ysgol, ac oherwydd bod angen iddyn nhw aros gartref i ofalu am eu teuluoedd.

Mae 72 miliwn o blant yn colli'r cyfle i fynd i'r ysgol